

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau yng Nghymru gan y Sector Preifat

Cyflwyniad

1. Yn dilyn cyfarfod diwethaf Cyngor Adnewyddu'r Economi, cytunwyd y câi papur ar yr adolygiad annibynnol o'r cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yng Nghymru ei gyflwyno i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Gwybodaeth Gefndirol

2. Cyhoeddodd Edwina Hart MBE CStJ AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, adolygiad annibynnol o'r cyllid sydd ar gael i BBaChau yng Nghymru ar 16^{eg} Ionawr 2013. Nod yr adolygiad yw ystyried pa mor effeithiol yw ffynonellau cyllid presennol o ran diwallu anghenion BBaChau yng Nghymru, nodi meysydd sy'n peri her benodol a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu. Bydd yn edrych yn benodol ar b'un a yw banciau'r stryd fawr yn diwallu anghenion ariannu BBaChau yng Nghymru (rhan gyntaf yr adolygiad) a bydd yn ystyried rhinweddau ffynonellau ariannu eraill ar gyfer BBaChau yng Nghymru (ail ran yr adolygiad).

Amserlen

3. Cyflwynir adroddiad interim a fydd yn ystyried pa mor effeithiol yw banciau'r stryd fawr o ran darparu'r cyllid sydd ei angen ar BBaChau yng Nghymru ar ddiwedd mis Mai 2013. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, mae'r gwaith o ddadansoddi'r data a gasglwyd hyd yma yn mynd rhagddo ac, felly, mae'r papur trafod hwn ond yn nodi'r canfyddiadau rhagarweiniol. Disgwylir i adroddiad terfynol sy'n ymdrin â ffynonellau ariannu eraill gael ei gyflwyno yn ystod yr hydref eleni.

Cynnydd hyd yma

4. Sefydlwyd panel cynghori gwirfoddol o'r byd academiaidd a busnes ac mae wedi cynnal tri chyfarfod.
5. Neilltuwyd un o'r cyfarfodydd i gymryd tystiolaeth gan gynrychiolwyr banciau'r stryd fawr. Gofynnwyd iddynt lunio argymhellion penodol ar sut y gallai Llywodraeth Cymru a'r gymuned fancio yng Nghymru gydweithio ar y mater hwn i helpu BBaChau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid. Disgwylir yr argymhellion hyn ar ddiwedd mis Mai ac ni chynhwyswyd eu tystiolaeth yn y papur trafod hwn.
6. Coladwyd cryn dipyn o ddata o wahanol ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyllid Cymru, banciau unigol y stryd fawr, Banc Lloegr, Cymdeithas Bancwyr Prydain (BBA), yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS), Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), Cyllid a Thollau EM (CThEM), y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), NESTA, Cymdeithas Ecwiti Preifat a Chyfalaf Mentro Prydain (BVCA) a gwahanol brifysgolion yn y DU a thramor.

7. Gofynnwyd am ddata yn uniongyrchol gan Gymdeithas Bancwyr Prydain a phum banc mawr y stryd fawr mewn perthynas â benthyca gan y banciau yng Nghymru. Gwrthododd un banc roi'r data ac rydym yn dal i aros i glywed gan y lleill. Mae hyn yn anffodus am fod y wybodaeth ar gael ar lefel Cymru, fel y dangosir gan ddata Cymdeithas Bancwyr Prydain a gynhyrchir yn chwarterol. Fodd bynnag, ymddengys ei bod yn bosibl y byddai'r sector bancio ei hun yn amharod i roi'r fath wybodaeth fanwl i'r adolygiad.

Ymgysylltiad Ymgynghori

8. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang â mwy na 90 o gynrychiolwyr y sector bancio a sefydliadau ariannol eraill, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cyfryngwyr, y byd academiaidd a busnes. Cynhaliwyd trafodaethau manylach hefyd gydag aelodau o Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IOD), Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). Cynhelir cyfweiliadau pellach fel rhan o ail ran yr adolygiad a byddant yn cynnwys cyfarfodydd â phob un o banelau sector Llywodraeth Cymru.
9. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar-lein (a ddaeth i ben ar 30 Ebrill) ar ei gwefan hefyd. Cafwyd dros 30 o ymatebion hyd yma gan gynnwys ymateb manwl gan y Ffederasiwn Busnesau Bach.
10. Cynhwyswyd unigolion a chyrrff o'r gymuned wledig yn yr ymgynghoriad: drwy gyfarfod ag Aelodau Bwrdd Banc Cyllid Cymunedol Robert Owen (ROCFB) yng Nghasnewydd, aelodau Panelau Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol ac aelodau ICAEW yng Ngogledd Cymru.

Argymhellion rhagarweiniol

11. Mae'n rhy gynnar o hyd i gyflwyno sylwadau ar y rhestr derfynol o ganfyddiadau ac argymhellion, am y bydd papur llawn yn cael ei gyflwyno i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar ddiwedd mis Mai Fodd bynnag, mae'r argymhellion cychwynnol canlynol wedi deillio o'r cyfweiliadau manwl â rhanddeiliaid, ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad a gwaith dadansoddi data eilaidd, ar y rôl y gallai Llywodraeth Cymru ei chwarae o ran helpu busnesau i gael gafael ar gyllid nid yn unig o fewn y sector bancio ond hefyd wrth hyrwyddo ffynonellau ariannu eraill ar gyfer BBaChau.

Banciau

12. Dylai Llywodraeth Cymru godi mater annhegwch rheolau Basel III yn uniongyrchol gyda Thrysorlys y DU a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i Bwyllgor Basel ar Oruchwyllo Bancio i argymhell na ddylid ystyried benthyca i BBaChau wrth bennu lefelau addas o gyfalaf a hylifedd o fewn y system fancio.
13. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru, a busnesau yng Nghymru, yn cael eu cyfran deg o gyllid gan y Banc Busnes newydd o gofio'r pryderon na fydd cyllid yn cael ei ddosbarthu'n rhanbarthol ledled y DU ac y gallai gael ei ganolbwyntio yn y rhannau mwy llewyrchus o'r DU.

14. Yn achos benthyciadau a gorddrafftiau, mae BBaChau llai o faint a mwy newydd yn llai tebygol o fod wedi llwyddo gyda'u ceisiadau am gyllid gan eu banc. Er bod banciau yn darparu cyfleusterau cyllido ar gyfer microfusnesau a busnesau newydd, yr argraff a geir yw bod banciau yn chwilio am lai o drafodion mwy o faint ym mhen uchaf y farchnad BBaChau. Yn wir, derbyniwyd yn gyffredinol, os oeddech yn fusnes o faint penodol, y byddech yn gallu cael benthyciad gan y banc heb fawr o drafferth er y gall fod pryderon ynghylch union delerau'r benthyciad hwnnw. O ganlyniad, awgrymwyd gan nifer o randdeiliaid na fydd y banciau yn gallu cyflawni'r rôl fenthycia ar gyfer y rhan hon o'r gymuned fusnes yn y dyfodol ac y bydd angen ystyried dulliau ariannu eraill ar gyfer cwmnïau llai o faint, yn enwedig microfusnesau. Felly, bydd ail ran yr adolygiad yn ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo a chefnogi systemau megis microfenthycia neu fenthycia yn y gymuned i fusnesau lleol llai o faint.
15. Mae banciau, cyfryngwyr a busnesau bach wedi nodi mai gwarantu'r benthyciad a fforddiadwyedd ad-daliadau, yn hytrach na chost benthycia, yw'r prif rwystrau i gael cyllid gan fanciau. Hyd yma, nid yw gwahanol gynlluniau Llywodraeth y DU, megis y Cynllun Cyllid ar gyfer Benthycia (FLS) a'r Cynllun Gwarant Cyllid Menter (EFG) wedi gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â'r naill fater na'r llall. Felly, dylai unrhyw ymyriad gan Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar y ddau rwystr hollbwysig hyn. Er enghraifft, o gofio bod gwarant wirioneddol y llywodraeth ar gyfer y rhaglen EFG yn gyffredinol gryn dipyn yn llai na'r hyn a hyrwyddir, gallai Llywodraeth Cymru roi gwarantau ychwanegol i yswirio'r benthyciadau i gwmnïau yng Nghymru a lleihau'r risgiau canfyddedig i fanciau.
16. Mae llawer o fusnesau bach yn ystyried bod prosesau gwneud penderfyniadau lleol gan fanciau yn allweddol i sicrhau bod eu hachos busnes yn cael ei ystyried yn ofalus. Ac eto prin iawn yw'r dystiolaeth bod hyn yn digwydd gyda'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynghylch credyd yn cael eu gwneud y tu allan i Gymru. O gofio hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hannog i gychwyn trafodaethau gyda'r prif fanciau er mwyn sicrhau bod rheolwyr rhanbarthol yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch sgoriau credyd ar gyfer busnesau yng Nghymru.
17. Mae angen sicrhau bod y broses fenthycia yn fwy tryloyw er mwyn sicrhau bod BBaChau, yn enwedig y rhai heb unrhyw gymorth ariannol ffurfiol yn fewnol, yn gwybod beth yn union sydd ei angen o ran paratoi cais i'r banc (cynllun busnes, rhagolygon arian parod, cymorth gan gyfryngwr). Yn gyfnewid am roi'r wybodaeth hon, byddai'r banciau wedyn yn cytuno i ystyried pob darpar gais am arian gan ddefnyddio asesiad manylach na'r dull sgorio credyd a ddefnyddir fel arfer ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau. Gallai'r fath "gyfamod bancio" sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd o fewn y broses fenthycia a gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Bancwyr Prydain i dreialu'r fath gynllun yng Nghymru.
18. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y diffyg cysylltiad rhwng y rhaglenni cymorth i fusnesau a gynigir ganddi a'r cyllid a ddarperir gan y gymuned fancio yng Nghymru. Yn benodol, mae angen iddi ystyried sut y gall weithio'n agosach â banciau i wneud y canlynol:
- Sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn cael y cymorth cywir ac felly gwella ansawdd cynigion busnes a'r wybodaeth a roddir i'r sector bancio
 - Chwarae rôl fwy o lawer o ran helpu i gyfeirio BBaChau yng Nghymru at bob ffynhonnell ariannu, efallai drwy wefan ryngweithiol
 - Hyrwyddo datblygiad rheolwyr arbenigol i gefnogi'r naw sector allweddol sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru

Dulliau ariannu eraill

19. Ar hyn o bryd lefelau isel o fuddsoddiad anffurfiol sydd yng Nghymru a gellid mynd i'r afael â hyn drwy (a) codi ymwybyddiaeth o fuddsoddiadau ecwiti fel dull ariannu ymarferol ymhlith BBaChau yng Nghymru sy'n tyfu a (b) datblygu cynllun gwarant ecwiti er mwyn annog unigolion preifat i fuddsoddi ymhellach mewn busnesau yng Nghymru. Caiff yr ymyriadau posibl hyn, a rôl Llywodraeth Cymru o ran eu cefnogi, eu hystyried yn fanylach yn ystod ail hanner yr adolygiad.
20. Mae diffyg credyd masnach, yn enwedig o ganlyniad i daliadau hwyr, yn broblem sy'n golygu bod llawer o fusnesau llai o faint yn ceisio cyllid byrdymor ar gyfer cyfalaf gweithio gan fanciau. Er nad oes ganddi'r pwerau deddfwriaethol i wneud hynny, gallai Llywodraeth Cymru osod esiampl drwy sicrhau bod pob contractwr sy'n gweithredu o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod talu eu cyflenwyr o fewn 30 diwrnod fan bellaf. Am fod mwy na £4.3 biliwn yn cael ei gaffael drwy'r sector cyhoeddus, gallai hyn gael cryn effaith ar lif arian parod cryn nifer o fusnesau llai o faint. Gallai hefyd ymgorffori'r fath amodau mewn rhaglenni eraill a reolir ganddi ar hyn o bryd.
21. Yn wyneb yr arwyddion bod benthyca masnachol gan gymdeithasau adeiladu wedi'i gyfyngu'n ddifawr ers 2008, dylai Llywodraeth Cymru drafod â Llywodraeth y DU sut i godi'r fath gyfyngiadau a all fod yn atal cannoedd o filiynau o bunnoedd o gyllid i'r sector eiddo rhag cael eu rhyddhau i'r economi.
22. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyciadau i fusnesau newydd sy'n creu, yn ôl gwaith ymchwil diweddar, y mwyafrif helaeth o'r swyddi yn yr economi. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn gyflym a chaiff y system fwyaf priodol ar gyfer rhoi'r math hwn o gymorth ei hystyried yn fanylach gyda'r adran briodol.
23. Mae cyfle pwysig i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o gefnogi ffynonellau ariannu amgen megis benthyca cymheiriaid i gymheiriaid a benthyca torf, naill ai drwy bartneriaeth neu gyllid uniongyrchol.

Cyllid Cymru

24. Fel yr unig gyfranddaliwr, mae angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar gyfeiriad strategol Cyllid Cymru yn y dyfodol ac, yn bwysicach oll, y rôl y dylai ei chwarae yn y sector ariannol yn y dyfodol ar gyfer busnesau yng Nghymru ochr yn ochr â darparwyr eraill.

Casglu Data

25. Mae'r adolygiad hwn wedi dangos nad oes digon o ddata rhanbarthol, yn enwedig ar gyfer Cymru, fel gwlad ddatganoledig. Er mwyn sicrhau bod prosesau llunio polisïau o fewn Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth, mae'n hollbwysig sicrhau bod sefydliadau yn y DU yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gwbl ymwybodol o oblygiadau datganol i a bod angen casglu data cywir ar lefel ranbarthol.

Cwestiynau / Materion i'w Trafod

26. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys y papur trafod hwn ac, yn arbennig, ystyried yr argymhellion rhagarweiniol ynghylch y rôl y gallai Llywodraeth Cymru ei chwarae yn y dyfodol o ran helpu BBaChau yng Nghymru i gael gaffael ar gyllid.

Yr Athro Dylan Jones-Evans

Prifysgol Cymru